Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Carolyn Hooson**

**Treffynnon**

Adroc ieb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/01/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Carolyn Hooson yn gwarchod plant o'i chartref teuluol, y mae'n ei rannu â'i gŵr a'u dau o blant yng Ngharmel, Treffynnon. Rhoddir gofal rhwng 8:00 a 18:00, o ddydd Llun i ddydd Iau, yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Mae wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 6 phlentyn o dan 12 oed.

Saesneg yw'r brif iaith. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae gan y plant lais ac maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu drwy eu chwarae a chânt gyfleoedd priodol i fod yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant yn ofalgar ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rheoli'r rhyngweithio'n effeithiol ac yn helpu'r plant i ddatblygu a dysgu. Ar y cyfan, mae'r amgylchedd yn lle diogel ac addas i'r plant chwarae a dysgu ynddo. Mae'n cynnwys adnoddau a chyfleusterau priodol o ansawdd da sydd eu hangen i ofalu am y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn effeithiol wrth reoli ei gwasanaeth ac yn defnyddio proses hunanwerthuso a barn pobl eraill i wneud gwelliannau. Mae'n sicrhau bod ei hyfforddiant a gwiriadau perthnasol arni hi ac eraill yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac yn defnyddio'r gymuned leol i wella profiadau'r plant.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae gweithdrefn i'w dilyn os bydd argyfwng wedi'i chynnwys yn y

datganiad o ddiben ac mae bellach yn cadw ei chofnod ei hun o newid cewynnau yn ogystal ag anfon y rhain adref at y rhieni.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhelliad mewn perthynas â'r amgylchedd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant lais a gallant wneud penderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser. Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant ac mewn amgylchedd y maent yn gyfarwydd ag ef. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu i gydweithio. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael a'r cyfleoedd a ddarperir gan y gwarchodwr plant. Gall y plant fod yn annibynnol a datblygu amrywiaeth o sgiliau drwy eu chwarae.

## Ein canfyddiadau

Roedd gan y plant lais a gwnaethant fynegi eu hunain yn eu ffordd eu hunain, ar lafar neu drwy ddefnyddio arwyddion di-eiriau os nad oeddent yn defnyddio iaith eiriol eto. Roedd y plant yn hyderus i ofyn am deganau ac adnoddau yr oeddent am eu defnyddio nad oeddent ar gael. Er enghraifft, roedd plentyn am i eitemau'r caffi gael eu cymryd allan ac, felly, gofynnodd i'r gwarchodwr plant a aeth i'w nôl iddo. Ymgynghorwyd â'r plant ynglŷn â sut yr hoffent dreulio eu hamser. Er enghraifft, gofynnwyd i'r plant beth yr hoffent ei wneud ar ôl cinio.

Roedd y plant wedi setlo ac roedd y plentyn a oedd yn cyrraedd o'r ysgol yn fodlon bod yng ngofal y gwarchodwr plant ac yn falch o weld y plant eraill. Roeddent yn gyfforddus yn eu hamgylchedd am eu bod yn gyfarwydd ag ef ac yn symud o gwmpas yr ystafelloedd yn hyderus. Roedd y plant wedi meithrin cydberthynas gadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Roeddent yn mynd ati yn rheolaidd i gael cysur neu dawelwch meddwl neu i'w gwahodd i ymuno â'u chwarae. Gwnaeth y plant ein gwahodd ninnau i ymuno â'u chwarae hefyd, sy'n dangos eu bod yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y plant yn mwynhau bod yng nghwmni eraill ac yn dysgu sut i rannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, roedd plentyn yn llenwi ei dryc â thywod ac roedd plentyn arall am ymuno â'r gweithgaredd ac roedd yn gallu gwneud hynny. Roedd y plant yn dysgu sut i ymddwyn yn dda ac yn gwrtais, gan ddefnyddio ‘please’ a ‘thank you’ yn rheolaidd heb fod angen i'r gwarchodwr plant eu hatgoffa i wneud hyn yn aml iawn. Roedd y plant yn dysgu i ddeall anghenion eraill. Er enghraifft, ni wnaeth plentyn gynhyrfu pan gymerodd plentyn arall tegan oddi arno. Gofynnodd yn gwrtais am ei gael yn ôl, a rhoddodd y plentyn y tegan yn ôl iddo yn hapus.

Roedd pob un o'r plant yn brysur yn cymryd rhan mewn gweithgaredd neu'n chwarae ag adnoddau roeddent wedi'u dewis yn rhydd. Roeddent yn dechrau bod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol am eu bod yn gallu cael gafael ar adnoddau priodol. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn rhyfeddu at flanced binc flewog a'r patrymau y gallai eu gwneud â'i ddwylo ac yn ymddiddori ynddynt. Roedd y plant yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain neu ochr yn ochr ag eraill. Er enghraifft, roedd y plant yn chwerthin ac yn rhedeg o gwmpas ar ôl y swigod roedd y gwarchodwr plant yn eu gwneud. Roedd y plant yn awyddus i ddweud wrthym am weithgareddau roeddent wedi cymryd rhan ynddynt gyda'r gwarchodwr

plant. Er enghraifft, roedd plentyn yn awyddus iawn i ddweud wrthym ei fod wedi cael picnic yn ddiweddar a dangosodd y flanced roedd wedi'i defnyddio i ni, gan ei gosod ar y llawr wrth iddo esbonio.

Roedd y plant yn gwybod ble roedd eu heitemau personol a'r cyfleusterau, megis basnau ymolchi a thoiledau, a oedd yn eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl yn ôl eu hoedran a'u cam datblygu O ganlyniad, roedd y plant yn ceisio gwneud pethau drostynt eu hunain cyn cael cymorth gan y gwarchodwr plant. Er enghraifft, wrth wisgo eu cotiau a'u sgidiau cyn mynd allan. Roedd y plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau, a gynlluniwyd ac a ddewiswyd yn rhydd, a oedd yn cefnogi eu datblygiad. Er enghraifft, gweithgareddau crefft, tynnu lluniau o ddefaid am eu bod wedi'u gweld yn aml wrth fynd am dro.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'n annog rhyngweithio cadarnhaol ac yn defnyddio technegau rheoli ymddygiad effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn deall datblygiad plant ac yn darparu adnoddau a chyfleoedd sy'n cefnogi datblygiad y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar yr hyfforddiant a'r wybodaeth ddiweddaraf am sut i ymdrin â materion diogelu os bydd ganddi unrhyw bryderon am blentyn. Roedd ei hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig yn gyfredol ac roedd damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n briodol a'u rhannu â'r rhieni. Roedd y gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefn newid cewynnau addas a gweithdrefnau glanhau er mwyn helpu i atal croeshalogi. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod arwynebau yn cael eu glanhau'n rheolaidd a rhoi tywelion unigol i'r plant eu defnyddio i olchi eu dwylo. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofrestrau o bresenoldeb y plant ac yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac roedd y plant yn ymwybodol o sut i adael y safle os oedd angen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y gwarchodwr plant yn cefnogi ac yn annog y plant i fyw bywyd iach. Roedd yn rhoi dewis o brydau a byrbrydau iach i'r plant ac yn cynnig llaeth neu ddŵr i'w yfed. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i fod yn egnïol a chael awyr iach. Gwnaed hyn drwy naill ai ganiatáu i'r plant fynd i'r ardaloedd awyr agored neu fynd â'r plant am dro neu i ymweld â lleoedd megis y parc lleol.

Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo sgiliau cymdeithasol da drwy gyfathrebu'n effeithiol â'r plant a gwrando'n astud ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud. Roedd yn defnyddio strategaethau effeithiol er mwyn helpu'r plant i ymddwyn yn briodol. Er enghraifft, canmol y plant ar lafar i ddathlu eu cyflawniadau a rhoi sticeri i'r plant pan oeddent yn ymddwyn yn dda neu'n dilyn arferion dyddiol, megis tacluso.

Roedd y gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn eu helpu i ddysgu a datblygu drwy'r adnoddau a'r gweithgareddau roedd yn eu darparu. Er enghraifft, roeddent yn cael llythyren yr wythnos ac roedd y gwarchodwr plant wedi creu basgedaid o eitemau a oedd yn dechrau gyda'r llythyren honno. Roedd yn helpu'r plant i adnabod yr eitemau. Roedd y gwarchodwr plant yn defnyddio sesiynau arsylwi i gwblhau cofnodion datblygu ac olrhain cynnydd y plant.  Roedd yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i drefnu gweithgareddau addas i'r plant, a oedd yn eu helpu i ddatblygu ymhellach. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael y cymorth, y lle, yr amser a'r adnoddau roedd eu hangen arnynt i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, cafodd y plant gytleri addas er mwyn iddynt allu bwydo eu hunain.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn addas i'r plant, ar y cyfan. Fodd bynnag, gellid rhoi mwy o ystyriaeth i'r ardaloedd awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan y plant le priodol i chwarae a dysgu, a bod adnoddau a chyfleusterau addas ar gael.

### Ein canfyddiadau

Roedd y gwarchodwr plant wedi cynnal asesiadau risg mewn perthynas â'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Roedd y rhain yn dangos bod y rhan fwyaf o'r peryglon wedi'u nodi a'u bod yn cael eu rheoli'n dda. Er enghraifft, roedd clwyd ddiogelwch yn cael ei defnyddio i atal y plant rhag dringo'r grisiau ac roedd y cŵn wedi'u cloi mewn ystafell ar wahân pan nad oedd yn briodol iddynt fod gyda'r plant. Roedd y prif fynedfeydd i'r gwasanaeth yn cael eu cadw ar glo i atal mynediad diawdurdod.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r ardaloedd awyr agored yn gwbl addas ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant am eu bod yn anwastad ac yn peri perygl posibl o faglu. Roedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod gan y plant y lle i chwarae a dilyn arferion dyddiol megis cael eu byrbryd a'u cinio. Roedd ystafell ar wahân ar gael er mwyn i urddas y plant allu cael ei barchu pan oedd eu cewynnau yn cael eu newid ac roedd hefyd yn darparu ardal dawel lle y gallai'r plant gysgu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y gwarchodwr plant yn darparu adnoddau priodol ar gyfer y plant ac roedd rhai cynhyrchion naturiol megis tywod ar gael er mwyn i'r plant eu defnyddio. Roedd y gwarchodwr plant yn parchu anghenion unigol y plant ac yn eu haddysgu am ddiwylliannau gwahanol drwy'r adnoddau roedd yn eu darparu. Ar y cyfan, roedd yr adnoddau yn cael eu storio'n briodol ac, felly, roeddent mewn cyflwr da ac yn lân. Roedd cyfleusterau, gan gynnwys toiled a sinc i lawr y grisiau y gallai'r plant eu cyrraedd, ar gael er mwyn i'r plant allu datblygu eu hannibyniaeth. Hefyd, roedd bwrdd a chadeiriau a oedd yn addas i blant er mwyn i'r plant allu bod yn annibynnol ac yn gyfforddus wrth gwblhau tasgau a gweithgareddau.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda, gan sicrhau bod yr holl gofnodion a gwaith papur gofynnol yn gyflawn. Mae'n gwerthuso'r gofal a ddarperir ganddi, gan ystyried barn pobl eraill wrth wneud gwelliannau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei hyfforddiant yn gyfredol a bod y gwiriadau perthnasol yn cael eu cwblhau. Caiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin â'r rhieni ac mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio’r gymuned leol i wella profiadau'r plant.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth glir o'i gwasanaeth a'r gofal a ddarperir ganddi. Mae'n rhannu gwybodaeth yn effeithiol drwy ddatganiad o ddiben sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol sydd ei hangen er mwyn i rieni benderfynu ai hwn yw'r gofal cywir iddyn nhw a'u plentyn. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu arferion cyfredol. Roedd yr holl waith papur yn gyflawn, yn drefnus ac yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau cofrestru'r plant. Roedd y gwarchodwr plant wedi gwrando ar gyngor o arolygiadau blaenorol ac wedi'i ystyried ac wedi gwneud newidiadau yn unol â hynny. Er enghraifft, roedd bellach yn cadw cofnod o fanylion am newid cewynnau yn ogystal ag anfon y wybodaeth hon adref at y rhieni. Roedd y gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd y Gymraeg ac yn gwneud defnydd priodol o Gymraeg achlysurol gyda'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y gwarchodwr plant wedi casglu barn y rhieni drwy drafodaethau anffurfiol, sylwadau ar ei chyfryngau cymdeithasol a holiaduron. Roedd y safbwyntiau hyn wedi cael eu hadolygu ac fe'u hystyriwyd wrth ysgrifennu'r adroddiad ar ansawdd y gofal. Dangosodd yr adroddiad a'r gwelliannau roedd y gwarchodwr plant wedi'u gwneud fod barn y rhieni yn cael ei hystyried. Er enghraifft, roedd y fwydlen wedi cael ei diwygio yn sgil sylwadau gan rieni.

Roedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod ei hyfforddiant hanfodol megis cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd yn gyfredol. Roedd wedi cwblhau gwiriad Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac roedd wedi sicrhau bod unrhyw aelodau eraill o'r cartref dros 16 oed hefyd wedi cwblhau un.

Roedd y gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am ddiwrnod a phrofiadau eu plentyn drwy sgyrsiau anffurfiol pan oeddent yn cyrraedd ac yn casglu eu plentyn a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol a dyddiaduron a oedd yn cael eu cwblhau a'u hanfon adref gyda'r plant iau. Roedd rhieni'r plant hŷn yn cael adroddiad ysgrifenedig ar brofiadau eu plentyn bob tymor ac, felly, roeddent yn ymwybodol o'r hyn roedd y plant wedi cymryd rhan ynddo. Roedd y gwarchodwr plant yn mynychu grwpiau plant bach lleol a oedd yn galluogi'r plant a'r gwarchodwr plant i gymdeithasu. Roedd yn defnyddio'r amgylchedd a'r gymuned leol yn effeithiol er mwyn gwella profiadau'r plant. Er enghraifft, roeddent yn

mynd i'r goedwig a'r caeau ger cartref y gwarchodwr plant yn rheolaidd, lle roeddent yn mwynhau chwarae a gweld amrywiaeth o anifeiliaid.

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhelliad canlynol;

- adolygu'r ardaloedd awyr agored er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i bob plentyn, gan ystyried ei oedran a'i gam datblygu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau lle rhoddwyd cyfnod o rybudd byr i'r gwarchodwr plant er mwyn sicrhau ei bod ar gael. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 13 Ionawr 2020 rhwng 09:00 a 12:30.

Gwnaethom y canlynol:

- Edrych ar amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau, cofrestrau a ffeiliau tri phlentyn;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau er mwyn casglu tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan y gwarchodwr plant;
- siarad â'r plant a'r gwarchodwr plant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant;
- rhoi adborth i'r gwarchodwr plant.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Carolyn Hooson** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **6** |
| **Ystod oedran y plant** | **O dan 12 oed.** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 8:00 a 18:00 o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod tymor yr ysgol yn unig.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **6 Chwefror 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **13 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/03/2020.